Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Iau Gorseinon
# Heol Pontarddulais
# Gorseinon
# Abertawe
# SA4 4FE

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Iau Gorseinon wedi'i lleoli mewn tref fechan sy'n ffinio â Dinas Abertawe. Yr awdurdod lleol yw Abertawe. Mae'r dref wedi dioddef yn sgil dirwasgiad economaidd a gostyngiad yn nifer y cyflogwyr lleol mawr. Mae hi bellach yn ardal adfywio.

Mae'r dalgylch yn cynnwys ystâd dai mawr yr awdurdod lleol, amrywiaeth o eiddo cymdeithas dai a rhai tai preifat. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae Gorseinon yn safle 42 o 147 o wardiau yn Abertawe. Mae tua 57% o ddisgyblion yn byw yn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, sydd 17% yn uwch na chyfartaledd Abertawe.

Ar hyn o bryd, mae 172 o ddisgyblion ar y gofrestr mewn saith dosbarth. Mae'r ysgol yn cyflogi wyth o athrawon amser llawn a dau athro rhan-amser. Mae'r ysgol hefyd yn cyflogi saith cynorthwyydd addysgu. Daw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion o gartrefi lle mae un rhiant. Mae plentyn sy'n teithio ar y gofrestr. Mae pedwar disgybl yn cael cymorth gan y Gwasanaeth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae gan ryw 26% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ganran hon wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae 43 o ddisgyblion (25%) ar gofrestr yr ysgol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, ac mae gan naw ohonynt (5%) ddatganiadau ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Mae cynigion drafft i uno'r ysgol â'r ysgol fabanod a meithrin y mae'n derbyn ei disgyblion ohoni yn saith mlwydd oed ar hyn o bryd. Ers dechrau'r tymor hwn, mae'r ysgol wedi cael ei harwain gan bennaeth dros dro, a oedd yn ddirprwy bennaeth yr ysgol gynt.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Iau Gorseinon yn 2010-2011 yw £3,039, sy'n cymharu ag uchafswm o £5,744 ac isafswm o £2,550 ar gyfer ysgolion cynradd yn Abertawe. Mae gan yr ysgol y 59fed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 89 ysgol gynradd yn Abertawe.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Bernir bod perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod safonau dros y pum mlynedd diwethaf wedi dangos gwelliant cyson;
- bod yr ysgol wedi gweithio'n effeithiol i wella safonau llefaredd a darllen;
- bod disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni safonau uchel mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac mewn medrau rhesymu mewn mathemateg a gwyddoniaeth; a
- bod ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth yn uchel.

Fodd bynnag:

- er bod yr ysgol yn perfformio'n dda o fewn y teulu, nid yw'n cymharu'n dda ag ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim;
- mae anghysondebau yn safon yr addysgu; ac
- mae diffyg cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

**Rhagolygon gwella**

Bernir bod y rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod tuedd o welliant parhaus wedi bod yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf;
- bod gan yr ysgol hanes o ymgymryd â mentrau sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth;
- bod proses hunanarfarnu sefydledig ac effeithiol;
- bod yr uwch dîm rheoli yn arwain yr ysgol yn effeithiol; a
- bod gan yr ysgol broses o nodi a gweithredu blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau yn y pynciau craidd;

A2 gwella ansawdd ysgrifennu estynedig ym mhob maes pwnc ar draws y cwricwlwm;

A3 parhau i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth mewn Cymraeg ail iaith;

A4 sicrhau ansawdd cyson uchel o addysgu ar draws yr ysgol;

A5 gwella rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol wrth herio'r ysgol i wella; a

A6 sicrhau bod yr adroddiadau blynyddol ar gynnydd disgyblion i rieni yn bodloni gofynion statudol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Iau Gorseinon yn gwneud cynnydd priodol o'r adeg y byddant yn dechrau yn yr ysgol ym Mlwyddyn 3. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ar dasgau ac yn dangos eu bod yn wrandawyr da. Maent yn ymroi i wneud gweithgareddau yn gydwybodol ac yn dangos cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod o feysydd pwnc. Mewn rhai dosbarthiadau, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddigon llawn i wneud cynnydd da mewn gwersi.

Mae disgyblion yn dangos gwelliant sylweddol yn eu medrau darllen a llefaredd ar draws cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant ar lefel briodol i'w hoedran a'u gallu, ac yn trafod cynnwys y llyfrau yn hyderus. Mae safonau ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn uchel. Mae medrau meddwl a rhesymu disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda, a gall y rhan fwyaf ohonynt gyfleu a chyfiawnhau penderfyniadau a barnau yn rhugl ac yn hyderus, gan ddefnyddio ystod dda o eirfa.

Mae disgyblion yn ysgrifennu'n ddigonol i ymateb i dasgau iaith penodol, er enghraifft, ysgrifennu llythyr yn cwyno, rysáit a darn o ysgrifennu dadleuol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae gallu disgyblion i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm yn rhagorol. Maent yn defnyddio cyfrifiaduron a chamerâu digidol i gynhyrchu gwaith o safon uchel iawn mewn ystod o gyfryngau.

Er bod deilliannau asesiadau athrawon yn dangos gwelliant mewn safonau Cymraeg ail iaith dros y tair blynedd diwethaf, ar y cyfan nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn defnyddio Cymraeg yn gymwys mewn gwersi Cymraeg a chyd-destunau eraill.

Bu gwelliant cyffredinol yn neilliannau asesiadau athrawon yn y pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros bum mlynedd, ac eithrio 2010, pan ostyngodd perfformiad. At ei gilydd, mae perfformiad uwchlaw cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig (lefel 4 ac yn uwch).

Wrth gymharu perfformiad ag ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol yn gyson yn y 50% is neu'r 25% isaf ym mhob maes pwnc ac eithrio Saesneg. Mewn perthynas â chanlyniadau ar gyfer Saesneg, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yn 2011.

Mae perfformiad ar lefelau uwch (lefel 5+) yn anghyson, ac yn is na chyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ar y cyfan. Mae disgyblion sy'n meddu ar ddawn benodol yn cyflawni safon uchel yn eu maes cryfder trwy brosiectau, gweithgareddau entrepreneuraidd a thrwy wneud defnydd estynedig o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm parhaus o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, plant sy'n deithwyr a disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, yn gwneud cynnydd da, fel y mae disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, fel grŵp, tua 10 pwynt canran islaw'r lefelau a gyflawnir gan y rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch hwn gryn dipyn yn llai na'r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi'u cymell yn dda ac yn awyddus i ddysgu. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae aelodau o'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ynglŷn â'u rôl mewn datblygiadau. Mae dysgwyr yn awyddus i gymryd rhan yn y gwersi ar y cyfan. Mae llawer ohonynt yn cynnig ymatebion llafar ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hapus i sefyll o flaen y dosbarth i roi eu safbwynt neu ateb cwestiwn.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o fyw a bwyta'n iach ac maent yn mwynhau defnyddio'r cwrs rhedeg ac ymarfer corff a'r cwrs golff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae lefelau presenoldeb islaw'r cyfartaledd teuluol a chenedlaethol, ond yn cymharu'n ffafriol â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg, ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae absenoldeb anawdurdodedig yn isel iawn, sef 0.4%.

Mae'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau yn dda. Caiff y cyngor ysgol ei gynnwys yn weithredol yn y penderfyniadau a wneir am fywyd yn yr ysgol a sut i'w wella. Mae'r Eco-bwyllgor a'r Swyddogion Iau Diogelwch ar y Ffordd, ochr yn ochr â'r cyngor ysgol, yn hyrwyddo mentrau yn yr ysgol yn effeithiol.

Mae disgyblion yn dangos pryder ac empathi at gymeriadau mewn storïau ac at y rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae eu dealltwriaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel plant yn dechrau datblygu'n dda. Maent yn gwrtais ag ymwelwyr ac yn sylweddoli y dylent ddangos parch at athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn dangos parch a phryder at eu cyd-ddisgyblion, ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, er bod rhai disgyblion yn cael anhawster yn cydweithredu â'i gilydd yn yr ystafell ddosbarth.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu o fewn yr ysgol a thu hwnt. Caiff gofynion y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 eu bodloni'n dda. Mae'r cwricwlwm, sy'n eang a chytbwys, yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn adeiladu ar wybodaeth a medrau disgyblion. Caiff dysgu'r disgyblion ei wella ymhellach trwy ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau. Mae addysgu a dysgu, sydd wedi'u seilio ar fedrau a'u cynllunio'n ofalus, yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn systematig ar draws yr ysgol mewn ystod eang o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig wedi'u datblygu cystal. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm yn datblygu ar hyd yr ysgol, ond nid yw hyn wedi cael effaith sylweddol ar ddysgu'r disgyblion eto.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r wers Gymraeg ffurfiol, ac mae disgwyliadau athrawon yn isel ar y cyfan.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda o ran addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, yn cynnwys defnyddio cysylltiadau â'r gymuned leol a lleoedd mewn rhannau eraill o'r byd. Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Blatinwm y Faner Werdd o ganlyniad i hyrwyddo cynaliadwyedd yn llwyddiannus, a Gwobr Ddinasyddiaeth Impetus am y gwaith y mae'r plant wedi'i wneud ar hawliau a chyfrifoldebau. Caiff dinasyddiaeth fyd-eang ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy eu datblygu'n dda trwy'r testunau y mae disgyblion yn astudio a thrwy'r clybiau cyfoethogi sydd wedi'u rhaglennu'n dda, sy'n cyfarfod ar brynhawn dydd Gwener.

### Addysgu: Digonol

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn amrywiol, ac yn dda mewn tua hanner y gwersi. Ceir enghreifftiau o waith effeithiol, yn enwedig tuag at ddiwedd y cyfnod allweddol. Yn y gwersi lle mae'r addysgu yn dda, ceir cynllunio clir a rheolaeth ddosbarth gadarn, ac mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn hyrwyddo datblygiad medrau. Mae athrawon yn monitro'r dysgu yn ofalus, ac yn ymyrryd yn briodol i gefnogi a herio dysgu'r disgyblion.

Mae diffygion mewn gwersi yn cynnwys diffyg gwahaniaethu ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd, disgwyliadau isel o ddisgyblion a chyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar yr athro, ac nid ydynt yn ennyn diddordeb y disgyblion yn weithredol yn eu dysgu.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n effeithiol fel tîm ar y cyfan. Mae hyn yn sicrhau bod unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn cael profiadau dysgu addas a chyfleoedd priodol i wneud cynnydd.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Caiff cofnodion unigol y disgyblion eu dadansoddi'n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae asesiad disgyblion o'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill wedi'i sefydlu'n dda. Fodd bynnag, mae strategaethau i hyrwyddo asesu ar gyfer dysgu yn llai datblygedig, a dim ond yn dechrau cael effaith ar ddysgu a deilliannau disgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac yn aml yn rhoi sylwadau adeiladol ar gyfer gwella. Nid yw adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn adrodd ar ddatblygiad disgyblion yn y pynciau sylfaen, ac o ganlyniad, nid ydynt yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae trefniadau da iawn ar waith i gefnogi ac annog iechyd a lles disgyblion yn effeithiol a hyrwyddo cyfranogiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Ceir ystod o glybiau allgyrsiol a chlybiau ar ôl yr ysgol sy'n cyfoethogi profiad y disgyblion ac mae'r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les, dysgu a datblygiad y disgyblion.

Mae cyfleoedd dysgu yn gwella datblygiad personol disgyblion yn dda, yn cynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau arbenigol eraill i gefnogi anghenion unigol disgyblion. Mae grwpiau a chlybiau meithrin yn helpu disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol i ddatblygu hyder.

Mae darpariaeth dda ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y cymorth tymor byr a thymor hir yn effeithiol. Mae athrawon wedi addasu'r cynlluniau addysg unigol i sicrhau eu bod yn cynnwys safbwyntiau disgyblion wrth drafod a nodi targedau ar gyfer gwella. Mae cynorthwywyr dysgu yn rhoi cymorth o ansawdd da i'r disgyblion hyn. Caiff rhieni eu cynnwys drwyddi draw ac fe gânt eu hysbysu'n rheolaidd am gynnydd.

Mae'r ysgol yn datblygu'r ddarpariaeth yn effeithiol i sicrhau her ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus o fewn y cwricwlwm, ac yn rhoi cymorth a chyfle priodol i ddisgyblion sydd â dawn mewn maes penodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, lle caiff disgyblion gyfle i wneud defnydd cyfartal o holl feysydd darpariaeth yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn rhoi pwyslais priodol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu adnoddau sydd o ansawdd da ac yn ddigonol i fodloni anghenion y disgyblion. Mae'r amgylchedd awyr agored yn gwella cyfleoedd dysgu gyda'r cwrs rhedeg ac ymarfer corff (man gweithgaredd yn yr awyr agored) a chwrs golff gwyllt sy'n hyrwyddo datblygiad corfforol. Mae gardd y goedwig law yn nodwedd ddychmygus sy'n meithrin gwerthfawrogiad o'r byd naturiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r gymuned leol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r adeiladau yn dda ac yn cael eu cynnal yn ddigonol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol. Gyda chymorth yr uwch dîm rheoli, mae wedi cyfrannu'n effeithiol at osod blaenoriaethau ar gyfer datblygu a'r gwelliant parhaus mewn safonau ac ansawdd dros y pedair blynedd diwethaf, ac mewn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o fannau cychwyn isel iawn pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

Mae’r uwch dîm rheoli ac arweinwyr eraill yn datblygu eu meysydd cyfrifoldeb yn dda ac yn cyfrannu’n gadarnhaol i hunanarfarnu a datblygiadau ysgol gyfan. Maent yn adeiladu’n effeithiol ar waith blaenorol, ac yn datblygu arddull arweinyddiaeth gydweithredol. Ceir cyfathrebu effeithiol yn yr ysgol, ac mae morâl y staff yn weddol uchel.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o’r blaenoriaethau presennol ar gyfer datblygu yn y cynllun gwella ysgol.

Mae rheoli perfformiad wedi’i sefydlu’n dda ac mae’n cael ei adolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu ymagwedd gydweithredol y pennaeth dros dro at arweinyddiaeth.

Mae staff wedi ymateb yn dda i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn enwedig wrth ddatblygu llythrennedd, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang, medrau meddwl a menter. Fodd bynnag, mae datblygiad asesu ar gyfer dysgu yn annigonol.

Mae’r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddo ystod dda o bwyllgorau. Mae llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol, ond nid ydynt yn ddigon beirniadol wrth graffu ar ddata perfformiad yr ysgol. Nid ydynt ychwaith yn cyfrannu’n rhagweithiol at hunanarfarnu’r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu mewn ffordd systematig. Mae arweinwyr pwnc yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau monitro â ffocws yn rheolaidd. Mae’r rhain yn cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar gynllunio athrawon a gwaith disgyblion. Mae ansawdd yr adroddiadau arfarnu sy’n deillio o’r gwaith hwn yn dda. Mae canfyddiadau hunanarfarnu yn bwydo’n glir i’r cynllun datblygu ysgol a’r blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Mae staff yn diffinio camau mewn cynlluniau datblygu yn glir ac yn amlinellu targedau, graddfeydd amser ac adnoddau realistig yn dda. Mae arsylwadau gwersi gan y pennaeth dros dro yn rhoi adborth adeiladol i staff ar ansawdd eu haddysgu, ond nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigon gwrthrychol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a’r hyn y mae angen ei wella.

Mae’r ysgol yn gofyn am safbwyntiau rhieni a dysgwyr yn rheolaidd ac mae’r rhain wedi cael eu bwydo i weithgareddau datblygu’r ysgol. Mae staff yn cydweithio mewn tair cymuned ddysgu broffesiynol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau mewn darllen.

Mae strategaethau gwella effeithiol wedi cefnogi tuedd ar i fyny mewn perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gydag ystod o bartneriaid strategol. Mae’n cysylltu’n effeithiol â’r ysgol fabanod a’r ysgol uwchradd bartner i gefnogi cyfnod pontio disgyblion i’r ysgol iau, ac oddi yno. Mae athrawon o’r ysgol wedi arsylwi gwersi yn yr ysgol uwchradd a’r ysgol fabanod fel ei gilydd, ac mae athrawon y ddwy ysgol wedi ymweld â nhw.

Mae athrawon o'r ysgolion wedi datblygu grwpiau safoni ar gyfer asesu. Mae'r ysgolion hefyd wedi rhannu adnoddau; er enghraifft, mae'r ysgol uwchradd wedi helpu'r ysgol iau i brynu offer cerddorol.

Mae'r ysgol fabanod a'r ysgol iau wedi defnyddio cyllid ar y cyd trwy'r prosiect ysgolion bro i gynnal hyfforddiant ar y cyd, er enghraifft mewn diogelu.

Ceir perthnasoedd da gyda'r awdurdod lleol, cymuned y teithwyr a'r uned cyfeirio disgyblion leol. Mae'r berthynas gyda rhieni wedi gwella dros y misoedd diwethaf trwy bolisi 'drws agored' a chyfathrebu mwy rheolaidd trwy wefan yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys a phrofiadol. Mae'n defnyddio staff yn effeithlon ac mae athrawon yn rheoli staff cymorth mewn dosbarthiadau yn dda. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i mannau mewnol ac allanol.

Mae'r pennaeth dros dro a'r corff llywodraethol yn goruchwylio'r gyllideb yn ofalus. Mae'r ysgol yn blaenoriaethu ei gwariant yn effeithiol ac mae ganddi ychydig bach o arian dros ben ar hyn o bryd. Ceir ystod dda o adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ac mae athrawon yn eu defnyddio'n dda, yn enwedig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a cherddoriaeth. Caiff y gwariant ar adnoddau ei weddu'n dda i flaenoriaethau'r ysgol, er enghraifft wrth ddatblygu darllen disgyblion.

Er mai digonol yn unig yw'r perfformiad presennol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o fannau cychwyn isel iawn pan fyddant yn dechrau'r ysgol ym Mlwyddyn 3, ac mae tuedd glir o welliant mewn deilliannau perfformiad dros y tair blynedd diwethaf. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwebaeth ar ddata perfformiad**

Dros bum mlynedd, bu gwelliant cyffredinol yng nghanlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ym mhob maes pwnc a'r dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol). Roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig neu'n uwch (lefel 4+) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 ychydig uwchlaw'r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ym mhob un o'r tri maes pwnc. Roedd hyn yn welliant nodedig ar berfformiad yr ysgol yn 2010, pan roedd y canlyniadau gryn dipyn islaw'r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol yn y tri phwnc, a phum pwynt canran yn is yn y dangosydd pwnc craidd. Nid oedd canlyniadau 2010 yn dilyn cynnydd cyffredinol y tair blynedd flaenorol, ond fe wnaeth y perfformiad ar gyfer 2011 barhau â'r gwelliant blaenorol.

Mae perfformiad ar y lefelau uwch (lefel 5+) neu'n uwch mewn Saesneg wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn 2011, roedd perfformiad cyfartalog y disgyblion ychydig (un pwynt canran) islaw'r cyfartaledd teuluol, a phum pwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd perfformiad ar y lefel hon mewn mathemateg a gwyddoniaeth tua phum pwynt canran islaw'r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol. Roedd y patrwm yn debyg mewn blynyddoedd blaenorol ar y cyfan.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn cyflawni lefel 4 neu'n uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, gyda bechgyn weithiau yn perfformio'n well na merched ac i'r gwrthwyneb ym mhob un o'r tri phwnc craidd. Yn yr un modd, ar lefel 5 ac yn uwch, perfformiad amrywiol a gafwyd gan fechgyn a merched fel ei gilydd dros y pum mlynedd. Yn 2011, nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol mewn perthynas â Saesneg a gwyddoniaeth, ac fe berfformiodd bechgyn yn well na merched o 13 pwynt canran mewn mathemateg.

O'i chymharu ag ysgolion tebyg, yn seiliedig ar ganran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is dros y tair blynedd ddiwethaf yn y dangosydd pwnc craidd. Mewn Saesneg, ar ôl dwy flynedd yn y 50% is, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf yn 2011. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth fel ei gilydd, roedd yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg yn 2009 a 2011, ac yn y 25% isaf yn 2010. Mae'r ysgol ar ochr is ei grŵp prydau ysgol am ddim (o fewn 0.7%), ac roedd canlyniadau ym mhob maes pwnc yn 2011 yn agos iawn at y cymedr; o fewn un pwynt canran mewn rhai achosion. Pe bai'r canlyniadau yn cael eu meincnodi yn y grŵp prydau ysgol am ddim nesaf, byddai'r ysgol wedi bod yn y 50% uchaf ym mhob un o'r meysydd pwnc craidd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i rieni**

Pedwar rhiant yn unig a ymatebodd i'r holiaduron, ac o ganlyniad, ni chasglwyd digon o wybodaeth i wneud unrhyw ymateb gwybodus.

**Holiaduron i ddisgyblion**

Cafwyd ymatebion i'r holiaduron gan 143 o ddisgyblion.

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os byddant yn poeni neu'n gofidio. Maent yn credu bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith, a dywed llawer ohonynt fod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, ond mae lleiafrif ohonynt yn credu nad yw disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda i alluogi iddynt wneud eu gwaith, ac nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Barry Norris | Arolygydd Tîm |
| Elizabeth Halls | Arolygydd Lleyg |
| Andrew Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lee Burnell | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i bob rhiant yn yr ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |